

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Albany,
Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 6 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 7 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-235-5

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4. Y camau nesaf	17
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
Atodiad C - Cynllun gwella.....	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Albany, Casnewydd ar 6 Medi 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 36 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant yn y clinig.

Yn seiliedig ar ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad, roedd y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd trefniadau hefyd ar waith i gleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig ac roedd canlyniadau'r adolygiadau hynny wedi'u harddangos.

Roedd y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon a byddent yn cael gwybod pe bai oedi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am sut y gallai cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant
- Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith yn y clinig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Ar y cyfan, roedd prosesau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol i archwilio'r cyfarpar a ddefnyddir.

Roedd tystiolaeth o drefniadau atal a rheoli heintiau a diogelu yn y clinig.

Nodwyd rhai materion yn ystod yr arolygiad a thynnwyd sylw'r tîm rheoli at y rhain. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion ychwanegol yng nghofnodion meddygol y cleifion a sicrhau bod nwyddau yn cael eu derbyn gan glinigydd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhoi gwybodaeth i'r cleifion am y feddyginiaeth a ddarperir
- Cofnodi gwybodaeth ychwanegol yng nghofnodion meddygol y cleifion

- Rhoi gwybod i'r cleifion ymlaen llaw am y cyfyngiadau yn y clinig i gleifion â phroblemau symudedd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd teclyn mesur pwysedd gwaed heb gyswllt yn cael ei ddefnyddio
- Roedd trefniadau diogelu ac atal a rheoli heintiau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion
- Roedd cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith ac roedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd ac a ddangoswyd yn effeithiol.

Roedd y staff yn glir ac yn hyderus o ran eu gallu i ymdrin ag unrhyw bryderon.

Roedd trefniadau mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol, arfarniadau a recriwtio yn y clinig yn dda ac yn sicrhau bod y staff perthnasol yn cael eu cyflogi a'u datblygu.

Roedd pob polisi a gweithdrefn a welsom yn gyfredol ac yn cynnwys dyddiad adolygu ac enw'r sawl a oedd yn gyfrifol am yr adolygiad.

Roedd meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Adolygu'r datganiad o ddiben yn flynyddol
- Cynnwys yr adrannau perthnasol gyda gwybodaeth yn y canllaw i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau yn gyfredol
- Roedd polisiau a gweithdrefnau yn gyfredol
- Roedd polisiau recriwtio yn cael eu dilyn wrth recriwtio staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cafwyd cyfanswm o 36 o holiaduron wedi'u cwblhau (23 gan gleifion a gwblhaodd holiadur 2022/23 ac 13 a gwblhaodd holiadur 2023/24). Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol, a dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Wedi defnyddio'r gwasanaeth ers 12 mlynedd, gwych, fel cartref oddi cartref.”

“Bob amser yn barod i helpu, yn llawn gwybodaeth ac yn gefnogol.”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am sut y gallai cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth hybu iechyd am ddiabetes, colesterol, colli pwysau, rhoi'r gorau i smygu a bwyta'n iach a oedd yn cael ei harddangos yn yr ardal aros. Roedd gwybodaeth am fwyta'n iach, a bwydlenni enghreifftiol, ar gael ar wefan y clinig hefyd.

Nodwyd hefyd fod teclyn mesur pwysedd gwaed heb gyswllt yn y dderbynfa yr oedd cleifion yn ei ddefnyddio i gofnodi eu pwysedd gwaed cyn gweld y clinigydd.

Urddas a pharch

Yn ystod ein hamser yn y clinig, gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir hefyd. Roedd y staff yn ystyriol ac yn sensitif wrth siarad â'r cleifion. Byddai'r clinigydd yn gweld y cleifion mewn ystafell breifat â drysau y gellid eu cloi. Ni allai pobl yn y dderbynfa glywed y sgysiau yn yr ystafell ymgynghori. Nid oedd unrhyw broblemau gyda'r amgylchedd a allai effeithio ar urddas y cleifion.

Roedd pob claf yn cytuno bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd, eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod eu cwestiynau yn cael eu hateb, ac roeddent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau cychwynnol dros y ffôn ac ar wefan y clinig.

Roedd arwydd wrth y fynedfa i'r clinig a oedd yn nodi y gallai siaradwyr Cymraeg ddewis siarad Cymraeg os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Gan nad oedd unrhyw staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn y clinig, byddai cyfieithydd yn cael ei ddarparu. Dywedodd cyfanswm o dri chlaf a gwblhaodd yr holiadur mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud nad oedd y cyfle i siarad Cymraeg wedi cael ei gynnig yn weithredol yn ystod eu taith fel cleifion, ond bod gwybodaeth am ofal iechyd ar gael iddynt yn Gymraeg.

Nododd pob un o'r cleifion fod digon o seddi yn yr ardal aros a bod toiledau neu gyfleusterau ymolchi digonol o fewn pellter rhesymol i'r ardal aros.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Roedd gwybodaeth glir wedi'i harddangos i'r cleifion a'u perthnasau am y ffordd roedd y clinig yn cael ei weithredu. Byddai triniaethau yn cael eu hesbonio yn ystod yr ymgynghoriadau a byddai gwybodaeth yn cael ei darparu am golli pwysau. Dywedwyd wrthym fod fersiynau print bras o'r wybodaeth a ddarperir ar gael.

Roedd polisi cydsynio ar waith a oedd yn nodi pwysigrwydd cael cydsyniad gan y cleifion a bod ganddynt y gallu i gydsynio.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y cleifion yn cael eu gweld ar sail apwyntiad yn unig a chawsant eu gweld yn brydlon yn ystod yr arolygiad. Nodwyd bod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw amseroedd aros ac unrhyw reswm dros oedi cyn gweld y clinigydd. Os na fyddai'r cleifion yn gallu aros, dywedwyd wrthym y byddent yn cael cyfle i aildrefnu eu hapwyntiad.

Dywedodd dros 91% o'r cleifion a ymatebodd eu bod wedi aros llai na 15 munud am eu hapwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybod am faint o amser y byddai'n rhaid iddynt aros. Dywedodd y cleifion a atebodd y cwestiwn eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol. Cawsom y sylwadau canlynol am ofal cleifion:

“Wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac yn gysurus iawn. Lleoliad braff iawn”

“Derbynnwyd a meddyg caredig a phroffesiynol iawn. Llawer o ganmoliaeth ac anogaeth i gyflawni'r nodau a gaiff eu nodi gan y staff.”

Roedd pob un o'r cleifion yn 'cytuno'n gryf' bod y gofynion canlynol wedi'u bodloni cyn cael triniaeth:

- Bod y gost wedi cael ei nodi'n glir
- Bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio
- Eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo yn y sefydliad drwy drin pawb yn deg. Roedd polisiau ar waith mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, ynghyd â pholisi rhyddid i lefaru, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol. Roedd hyfforddiant y staff ar gydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd yn gyfredol. Gofynnwyd i bob un o'r cleifion, gan gynnwys cleifion trawsryweddol, pa ragenwau a oedd orau ganddynt a sut roeddent am i'r staff eu cyfarch.

Gwelsom ddogfen ganllaw i'r staff yn ymwneud â chynorthwyo cleifion ag anabledau a oedd yn cynnwys canllawiau ar sut i gyfathrebu â chleifion ag anawsterau synhwyrdd.

Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, ni waeth a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchoddedig, ac nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn na'i ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y gwasanaeth yn ceisio barn defnyddwyr drwy lyfr sylwadau a blwch awgrymiadau a welwyd yn y dderbynfa ac roedd yn ei defnyddio'n weithredol i gael gwybod am welliannau a datblygiadau. Roedd canlyniadau arolwg diweddar i'w gweld ar yr hysbysfwrdd yn y dderbynfa hefyd. Yn ogystal, roedd gwybodaeth am yr adborth a roddwyd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar y lleoliad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y clinig yn defnyddio dwy ystafell mewn rhan wedi'i rhentu o adeilad amlfeddiannaeth ac aml-lawr. Mae'r adeilad wedi dyddio ac mae angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, roedd yr ystafelloedd a arolygwyd yn lân ac yn addas at y diben. Roedd yr adeilad yn ddiogel ac roedd intercom er mwyn gofyn am fynediad i'r clinig.

Gwnaethom edrych ar bolisi addasrwydd a chynnal a chadw'r safle a'i adolygu, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am gynnal a chadw cyfarpar a'r amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am brofi offer cludadwy, y boeler nwy a'r cyflenwad dŵr. Cawsom wybod bod landlord newydd bellach yn berchen ar y safle a'i fod yn bwriadu ei adnewyddu.

Nid oedd yn hawdd i gleifion â phroblemau symudedd gyrraedd y clinig am fod yn rhaid iddynt ddringo dau ris i fynd i mewn i'r adeilad. Yn ogystal, roedd toiledau'r dynion ar lawr cyntaf yr adeilad ac nid oedd lifft ar gael. Er y rhoddwyd gwybod i gleifion am hyn yn y canllaw i gleifion, dylai'r clinig hefyd sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys ar wefan y practis. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn cael cymorth i fynd i mewn i'r clinig pe bai angen. Nid oedd pob ymatebydd i'r holiadur o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch, a dywedodd 38% o'r cleifion fod yr adeilad yn rhannol hygyrch yn unig.

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am y diffyg mynediad i'r clinig yn cael ei rhannu'n glir â chleifion ar wefan y clinig.

Er nad oedd diffibriliwr ar y safle, roedd un ar gael o fewn 100 metr i'r safle y gallai'r staff ei ddefnyddio pe bai angen. Nid oedd unrhyw driniaethau mewnwithiol yn cael eu cynnal ar y safle.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y risgiau atal a rheoli heintiau wedi cael eu lliniaru'n ddigonol yn y clinig drwy gofnodion ac amserlenni glanhau a welsom, hyfforddiant i'r staff ar atal a rheoli heintiau a pholisi atal a rheoli heintiau cyfredol.

Roedd yr amgylchedd yn edrych yn lân, ac ni nodwyd bod angen gwneud unrhyw waith atgyweirio ar unwaith.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y lleoliad yn lân a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisi diogelu ar waith a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac roedd y polisi yn cynnwys manylion y timau diogelu lleol. Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu ac roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd gan y rheolwr fynediad at raglen Diogelu Cymru Gyfan hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o bolisi a deddfwriaeth genedlaethol, yn ogystal â gweithdrefnau'r ardal leol. Roedd pob aelod arall o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu i'r lefel berthnasol, sef o leiaf lefel dau.

Roedd yr arweinydd diogelu yn gwybod beth i'w wneud pe bai pryder diogelu yn cael ei nodi neu pe bai'n cael gwybod am un.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol perthnasol i ddiwallu anghenion y cleifion. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw. Er bod clorian ddigidol a mesuryddion pwysau gwaed wedi'u calibradu, y gwelwyd y tystysgrifau profi a chalibradu perthnasol ar eu cyfer, nid oedd y dull mesur taldra a ddefnyddiwyd wedi'i galibradu.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dull mesur taldra yn cael ei galibradu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod dull cywir o gofnodi Mynegai Màs y Corff (BMI).

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Rhodddwyd tystiolaeth o ddangosyddion ansawdd ac archwiliadau a ddefnyddiwyd i fonitro gofal cleifion. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth a ddarparwyd a oedd yn dangos bod y mwyafrif o'r rheini a arolygwyd wedi colli pwysau. Roedd archwiliad o'r ffordd y caiff cofnodion eu monitro a phrosesau cadw cofnodion hefyd.

Nid oedd unrhyw heriau mewn perthynas â'r staff a'u hyfforddiant. Roedd y clinigwyr y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl gyfarwydd â'r feddyginiaeth a ddefnyddir ac roeddent wedi ymwneud â rhagnodi'r feddyginiaeth hon ers peth amser. Roedd y clinigwyr yn arbenigo mewn endocrinoleg sy'n cwmpasu rheoli gordewdra a diabetes.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd trefniadau ar waith i reoli meddyginiaeth yn y clinig. Roedd hyn yn cynnwys archebu, derbyn a rhoi cyfrif am y meddyginiaethau, yn ogystal â chael gwared ar unrhyw hen feddyginiaeth. Roedd meddyginiaethau a ragnodwyd wedi'u hanodi'n glir ar gofnodion meddygol y claf ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mewn achosion lle rhodddwyd y gorau i roi meddyginiaeth, nodwyd y rhesymau dros hyn yng nghofnodion meddygol y claf hefyd.

Roedd trefniadau storio digonol ar gyfer meddyginiaethau a ddefnyddir yn y clinig; roeddent yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo yn unol â'r gofynion o ran cyffuriau a reolir. Fodd bynnag, roedd danfoniadau fel arfer yn cyrraedd pan nad oedd clinigydd yn bresennol ac roedd gan y staff gweinyddol allwedd. Yn ystod yr arolygiad, cymerwyd yr allwedd oddi wrth y staff gweinyddol fel mai dim ond clinigydd oedd â'r allwedd ac y byddai danfoniadau ond yn cyrraedd pan oedd clinigydd yn bresennol, ynghyd â thyst.

Ymdrinnir â'r mater hwn yn Atodiad A, sy'n crynhoi'r pryder a nodwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryder hwn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol pum claf, a nodwyd eu bod yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Roedd tystiolaeth o'r ymgynghoriad cychwynnol a'r ymgynghoriad dilynol fod y gwiriadau angenrheidiol ar waith. Roedd y cleifion yn cael taflen wybodaeth i gleifion, a luniwyd yn 2007 ac a adolygwyd yn 2008, i gyd-fynd â'r feddyginiaeth a roddwyd. Mae angen adolygu'r daflen hon a gwella'r fformat fel bod y wybodaeth ar un ddalen o bapur. Mae angen symleiddio ac egluro'r derminoleg hefyd. Yn ogystal, mae angen cadw copi o'r daflen wedi'i lofnodi gan y claf gyda'r cofnodion clinigol, er mwyn sicrhau bod y cleifion wedi llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall cynnwys y daflen.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- **Bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau a'i fformatio, bod y derminoleg yn cael ei hesbonio a'i hegluro, er mwyn cyd-fynd â'r feddyginiaeth a roddir.**
- **Bod copi o'r daflen wedi'i lofnodi gan y claf yn cael ei gadw gyda'r cofnodion clinigol, er mwyn sicrhau bod y cleifion wedi llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall cynnwys y daflen.**

Roedd y cofnodion meddygol yn cael eu cadw yn y clinig mewn lleoliad diogel.

Nodwyd bod y clinig wedi cyflwyno proses i sicrhau bod cerdyn cofnodion meddygol y claf yn cael ei lofnodi yn ystod pob ymweliad er mwyn cadarnhau hanes meddygol y claf. Nid oedd y cerdyn cofnodion yn cynnwys colofn â BMI y claf er mwyn sicrhau bod y cofnod yn dangos bod y claf o fewn yr ystod BMI a oedd yn golygu y gellid rhoi triniaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod BMI y claf yn cael ei gofnodi yn ystod pob ymweliad ar gerdyn cofnodion y claf.

Roedd y clinig hefyd yn gofyn am gopi wedi'i argraffu o hanes meddygol y cleifion cyn dechrau triniaeth er mwyn sicrhau nad oeddent yn cymryd unrhyw feddyginiaeth a fyddai'n eu hatal rhag cael y feddyginiaeth a ragnodwyd yn y clinig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y datganiad o ddiben i'w weld yn glir yn ardal y dderbynfa. Roedd gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r datganiad. Er ei fod yn cynnwys yr holl feysydd perthnasol gofynnol, nid oedd wedi cael ei adolygu ers 2020.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i fod yn cael ei lofnodi fel tystiolaeth o hyn.

Roedd y canllaw i gleifion ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion edrych arno, ond nid oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliadau. Anfonwyd dolen i dempled awgrymedig gan AGIC i'r lleoliad fel y gellid ei gwblhau'n llawn.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cael ei gwblhau'n llawn, a bod pob adran berthnasol yn gyflawn.

Roedd tystiolaeth bod trefniadau llywodraethu ar waith yn y clinig. Roedd hyn yn cynnwys strwythur rheoli ac adrodd clir a thystiolaeth o archwiliadau a gwblhawyd. Roedd rheolwr y practis yn ymweld â'r lleoliad bob wythnos a byddai'r unigolyn cyfrifol, neu ei ddirprwy, yn ymweld â'r clinig bob chwe mis o leiaf er mwyn cwblhau'r adroddiad ysgrifenedig chwemisol ar y lleoliad. Gan nad oedd llawer o staff yn cael eu cyflogi yn y clinig, fel arfer byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu ar lafar yn ogystal â thrwy e-bost neu drwy raglen ar-lein.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi cwynion yn cael ei arddangos yn y clinig a oedd yn cynnwys manylion AGIC ac roedd y polisi wedi'i gynnwys yn natganiad o ddiben y clinig hefyd. Dywedwyd wrthym yr ymdrinnir â phob cwyn yn fewnol ond, os byddai angen cymorth ar gleifion i fynegi pryderon, byddai rheolwr o glinig arall yn y grŵp yn helpu'r claf. Yr unig fater a godwyd gan y cleifion oedd mai dim ond am saith awr yr wythnos y mae'r clinig ar agor. Dywedodd y staff y byddent yn ystyried ymgynghoriadau o bell yn y dyfodol.

Byddai pryderon a chwynion ar lafar ac anffurfiol yn cael eu casglu a'u cofnodi gan reolwr y practis. Byddai gwybodaeth o unrhyw gwynion yn cael ei rhannu drwy raglen ar-lein ag aelodau eraill o'r staff. Er y byddai cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob chwe mis, byddai cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn fodlon rhoi gwybod am bryder. Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar gael i'r staff ei ddilyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y clinig ar agor am oddeutu saith awr dros ddeuddydd yr wythnos. Byddai apwyntiadau yn cael eu trefnu ar gyfer y cleifion pan fyddai staff ar gael i fynychu'r sesiynau hyn ac roedd nifer a chymysgedd sgiliau'r staff felly'n briodol ar gyfer y gwasanaeth a ddarparwyd i'r cleifion. Dim ond pan fyddai clinigydd yn bresennol y byddai ymgynghoriad yn cael ei drefnu gyda chlaf. Roedd yr apwyntiadau yn caniatáu digon o amser i'r clinigydd siarad â'r claf ac ymdrin ag unrhyw bryderon.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant a datblygu ar gael i'r staff hefyd os hoffent ddatblygu eu rolau a dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bod y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant ychwanegol.

Roedd y tîm rheoli yn olrhain hyfforddiant gorfodol y staff drwy gofnodi dyddiadau ar galendr ar-lein. Gwelwyd tystysgrifau hyfforddiant staff ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol sydd ei angen, gan gynnwys diogelwch tân, codi a chario, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu ac atal a rheoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o'r staff yn y clinig, er mwyn sicrhau bod eu perfformiad yn cael ei gofnodi.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd y polisi Adnoddau Dynol angenrheidiol yn cael ei ddilyn mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer y staff. Nodwyd bod y polisi Adnoddau Dynol ar gyfer staff meddygol ac anfeddygol yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth am recriwtio a dilysu cymwysterau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd gan aelod o'r staff gweinyddol allwedd i'r cabinet cyffuriau a reolir. Dim ond clinigydd cymwysedig ac awdurdodedig all gadw'r allwedd hon.	Mynediad heb awdurdod i'r cabinet cyffuriau a reolir.	Hysbysu Rheolwr y Practis.	Cymerwyd yr allwedd oddi wrth y staff gweinyddol a dim ond clinigydd fydd yn ei chadw yn y dyfodol.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany

Dyddiad yr arolygiad: 6 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd unrhyw faterion pellach yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany

Dyddiad yr arolygiad: 6 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am y diffyg mynediad i'r clinig yn cael ei rhannu'n glir â chleifion ar wefan y clinig.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 22, Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch, a Safon 2, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.			
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dull mesur taldra yn cael ei galibradu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod dull cywir o gofnodi Mynegai Màs y Corff (BMI).	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 16, Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol			

<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau a'i fformatio, bod y derminoleg yn cael ei hesbonio a'i hegluro, er mwyn cyd-fynd â'r feddyginiaeth a roddir. • Bod copi o'r daflen wedi'i lofnodi gan y claf yn cael ei gadw gyda'r cofnodion clinigol, er mwyn sicrhau bod y cleifion wedi llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall cynnwys y daflen. 	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 15, Rheoli Meddyginiaethau</p>			
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod BMI y claf yn cael ei gofnodi yn ystod pob ymweliad ar gerdyn cofnodion y claf.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 23</p>			

<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i fod yn cael ei lofnodi fel tystiolaeth o hyn.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 8</p>			
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cael ei gwblhau'n llawn, a bod pob adran berthnasol yn gyflawn.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 7</p>			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany

Dyddiad yr arolygiad: 6 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am y diffyg mynediad i'r clinig yn cael ei rhannu'n glir â chleifion ar wefan y clinig.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 22, Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch, a Safon 2, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.	Rydym wedi diweddarau ein gwefan ac wedi cynnwys datganiad hygyrchedd er mwyn rhoi gwybod i ymwelwyr nad oes mynediad gwastad i'n clinig a'n cyfleusterau ac y gall mynediad fod yn anodd i gleifion â phroblemau symudedd.	John Sutton	Cwblhawyd 5 Tachwedd 2023
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dull mesur taldra yn cael ei galibradu'n rheolaidd er mwyn	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 16, Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol	Rydym wedi prynu dyfais mesur taldra unigol newydd o radd feddygol sydd wedi'i chalibradu a all ddarparu mesuriadau imperial a metrig.	John Sutton	Cwblhawyd 10 Tachwedd 2023

sicrhau bod dull cywir o gofnodi Mynegai Màs y Corff (BMI).		Caiff y ddyfais ei chalibradu'n flynyddol.		
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau a'i fformatio, bod y derminoleg yn cael ei hesbonio a'i hegluro, er mwyn cyd-fynd â'r feddyginiaeth a roddir. Bod copi o'r daflen wedi'i lofnodi gan y claf yn cael ei gadw gyda'r cofnodion clinigol, er mwyn sicrhau bod y cleifion wedi llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall cynnwys y daflen. 	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Safon 15, Rheoli Meddyginiaethau	<p>Mae geiriad, terminoleg a fformat y daflen wybodaeth i gleifion ar gyfer y feddyginiaeth a roddir wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y daflen yn gliriach ac yn haws i gleifion ei deall</p> <p>Yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r meddyg, gofynnir i'r cleifion lofnodi datganiad i gadarnhau eu bod yn deall cynnwys y daflen wybodaeth i gleifion y maent wedi'i chael, a chaiff y datganiad hwn ei gadw gyda'r cofnodion clinigol.</p>	Dr Ala Sharif	Cwblhawyd 13 Tachwedd 2023
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod BMI y claf yn cael ei gofnodi yn ystod	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 23	Caiff BMI y cleifion ei gofnodi yn ystod pob ymweliad ar eu cerdyn cofnodion cleifion	John Sutton	Cwblhawyd 13 Tachwedd 2023

pob ymweliad ar gerdyn cofnodion y claf.				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i fod yn cael ei lofnodi fel tystiolaeth o hyn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 8	Mae'r datganiad o ddiben wedi cael ei adolygu ac mae wedi cael ei lofnodi fel tystiolaeth o hyn. Caiff y datganiad o ddiben ei adolygu'n flynyddol.	John Sutton	Cwblhawyd 11 Tachwedd 2023
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cael ei gwblhau'n llawn, a bod pob adran berthnasol yn gyflawn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 7	Mae'r canllaw i gleifion wedi cael ei gwblhau yn llawn gan ddefnyddio templed Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac mae pob adran berthnasol wedi'i chwblhau	John Sutton	Cwblhawyd 13 Tachwedd 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): John Sutton

Swydd: Rheolwr

Dyddiad: 13 Tachwedd 2023